Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Spittal

Neuadd Eglwys y Santes Fair
The Green
Spittal
SA62 5QT

Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Spittal

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Spittal |
| Categori'r gofal a ddarperir | |
| Person(au) cofrestredig | Suzy Armstrong |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Suzy Armstrong |
| Person â gofal | |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener, rhwng 9.10am a 12.30pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nac oes |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ebrill 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ebrill 2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 23/09/2025 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Gwella'r defnydd o asesu i lywio dysgu yn y dyfodol a gwneud yn siŵr bod pob un o'r ymarferwyr yn glir am ddeilliannau dysgu bwriadedig y gweithgareddau

A2. Miniogi arferion hunanwerthuso a gwella fel eu bod yn nodi ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'n fwy cywir

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob un o'r plant lais cryf. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol am bethau sy'n effeithio arnynt yn hyderus. Er enghraifft, maent yn dewis gweithgareddau ac yn penderfynu beth hoffen nhw ar gyfer eu byrbrydau. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn dda trwy gyfathrebu llafar a dieiriau. Mae pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ddechrau chwarae. Maent yn setlo'n gyflym ac yn ymdopi'n dda iawn wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr.

Mae gan y plant berthnasoedd gwresog a chlos ag ymarferwyr, ac yn cael cymorth a chysur, os oes angen. Maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Ceir perthnasoedd sefydledig â theuluoedd. Mae pob un o'r plant yn ymwybodol o arferion y lleoliad. Maent yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau, fel chwilio am adnoddau i'w cynorthwyo yn eu gweithgareddau ar gyfer yr wythnos. Mae bron pob un o'r plant yn symud rhwng gweithgareddau'n hyderus, er enghraifft peintio, chwarae synhwyraidd, a chwarae â blociau. Maent yn rhyngweithio'n dda trwy chwarae ochr yn ochr neu ymgysylltu â'i gilydd yn briodol ar gyfer eu cyfnod datblygu.

Mae pob un o'r plant yn weithgar ac yn ymgysylltu'n dda yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn dangos diben a chwilfrydedd wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn eu dilyn yn dda. Er enghraifft, wrth weithio gyda thoes, maent yn dilyn camau a sbardunau gan ymarferwyr yn hapus. Mae bron pob un o'r plant yn siarad â ffrindiau ac ymarferwyr yn hyderus gan eu gwahodd i 'edrych ar hyn' ac yn defnyddio geiriau disgrifiadol fel 'squishy' wrth archwilio padiau rhif synhwyraidd.

Mae plant yn datblygu medrau a gwybodaeth trwy ddilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn dyfalbarhau ac yn ennill ymdeimlad o gyflawniad. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr orsaf ddŵr yn yr awyr agored, maent yn pwmpio dŵr i mewn i gan dŵr ac yn ei ddefnyddio i ddyfrio planhigion. Maent yn hyderus i ofyn am gymorth pan fydd ei angen arnynt. Mae pob un o'r plant yn cynyddu eu medrau annibyniaeth a hunangymorth yn dda. Er enghraifft, maent yn helpu tacluso, yn golchi eu dwylo, ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu heiddo. Maent yn dod yn gynyddol gymwys yn ystod amser byrbryd trwy'r system hunanweini. Maent yn taenu menyn ar gracers ac yn arllwys eu diodydd eu hunain yn synhwyrol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair a phedair oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn cael addysg a ariennir yn rhywle arall i adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i gefnogi hylendid ac iechyd a diogelwch da. Er enghraifft, maent yn darparu byrbrydau iach ar gyfer plant, fel cracers, caws a ffrwythau, ynghyd â llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda. Maent yn cofnodi digwyddiadau, fel damweiniau, a meddyginiaeth angenrheidiol yn briodol. Maent yn cynnal adolygiadau o ddigwyddiadau i ddadansoddi unrhyw dueddiadau yn ofalus. Mae pob un o'r staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac yn cynnal ymarferion rheolaidd, fel gwacáu mewn tân.

Mae ymarferwyr yn dilyn systemau sefydledig effeithiol i gynorthwyo plant sydd ag alergeddau ac anghenion deietegol. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau priodol i gadw plant yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod hylendid da wrth newid clytiau yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon ac yn gweithredu i amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn garedig, yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â phlant mewn modd gwresog a thyner gan greu awyrgylch cadarnhaol, digynnwrf a difyr yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn siarad â nhw am eu teuluoedd, gan hyrwyddo amgylchedd lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae gan y lleoliad bolisi rheoli ymddygiad effeithiol ar waith, ac mae ymarferwyr yn rhoi canmoliaeth am ymddygiad da ac yn defnyddio technegau cadarnhaol yn fedrus. Er enghraifft, caiff plant eu hatgoffa bum munud cyn tacluso, a'u canmol am rannu'n dda.

Mae ymarferwyr yn diwallu anghenion plant yn llwyddiannus. Maent yn nodi plant y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt, ac mae ganddynt systemau effeithiol ar waith i fonitro anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn cael cymorth priodol. Er enghraifft, maent yn darparu cymorth un i un ar gyfer plant, pan fydd angen.

Mae ymarferwyr yn darparu cydbwysedd da o chwarae wedi'i ysgogi gan y plentyn, ochr yn ochr â gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolyn, fel amser cylch ac amser stori. Mae hyn yn galluogi plant i arwain yn eu chwarae a'u dysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn ystod chwarae synhwyraidd, mae plant yn defnyddio offer fel llwyau a lletwadau yn fedrus

i gario ceirch, gan ddatblygu dealltwriaeth o fesur. Mae pob un o'r ymarferwyr yn ymgysylltu â phlant ac yn ymestyn eu chwarae'n ystyriol. Er enghraifft, maent yn rhannu llyfrau â phlant, yn gofyn cwestiynau iddynt, ac yn trafod y storïau'n bwrpasol. Maent yn defnyddio amser cylch yn gyfle i ddatblygu iaith a dysgu plant, fel dyddiau'r wythnos, lliwiau, rhifau ac adnabod siapiau, sy'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog. Maent yn defnyddio iaith arwyddion yn aml i ymgorffori'r dysgu hwn ymhellach.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu cynnes, cynhwysol, ac ysgogol sy'n cefnogi dysgu'r plant yn gadarnhaol trwy chwarae ac archwilio. Maent yn trefnu'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn ystyriol i annog annibyniaeth, chwilfrydedd ac ymgysylltu cynaledig. Gall plant fanteisio ar ystod eang o adnoddau, y maent yn eu defnyddio i archwilio ac ymchwilio'n ddychmygus.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae arweinydd y lleoliad yn cynllunio dysgu sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion unigol yn briodol. Mae ymarferwyr yn addasu gweithgareddau'n ystyriol ar sail diddordebau sy'n dod i'r amlwg gan y plant. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio'r dysgu ar thema ffermio pan fydd plant yn mynegi diddordeb mewn ffermio ac yn caniatáu i blant dynnu lluniau o gwmpas y pentref lleol pan fyddant yn cael eu hudo â thynnu lluniau. Fodd bynnag, nid yw pob ymarferwr yn ymwybodol o'r disgwyliadau a amlinellwyd mewn cynlluniau dysgu.

Mae'r ymarferwr arweiniol yn gwerthuso effaith dysgu cynlluniedig ar gynnydd plant yn briodol. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cyfrannu at yr asesiadau hyn yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad bob amser yn defnyddio arsylwadau dyddiol o ddysgu i lywio dysgu'n ddigon cyson.

Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth ddefnyddiol o ddatblygiad plant. Maent yn rhyngweithio â phlant yn gadarnhaol, gan fodelu iaith ac ymddygiad yn sensitif. Yn ystod chwarae, mae ymarferwyr yn aml yn gofyn cwestiynau ystyriol. Mae hyn yn helpu ymestyn meddwl plant yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn gwybod pryd i gamu'n ôl a chaniatáu i blant arwain eu dysgu eu hunain, a phryd i ymyrryd i gefnogi eu dealltwriaeth. Mae'r cydbwysedd hwn yn cefnogi cynnydd plant tra'n sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd dysgu ystyrlon, er enghraifft wrth archwilio ac edrych ar ddail yr hydref ac afalau sydd wedi cwympo o faes y pentref.

Mae ymarferwyr yn annog plant i fynegi eu hunain yn ystyriol. Maent yn sgwrsio â phlant am eu profiadau yn effeithiol. Er enghraifft, wrth rannu llaeth yn ystod amser byrbryd, mae ymarferwyr yn annog plant i siarad am ffermio a gwartheg, ac yn gwneud cysylltiadau dilys â'r bwyd y maent yn ei fwyta a'i yfed.

Yn ystod sesiynau wedi'u harwain gan oedolyn, mae ymarferwyr yn helpu plant i glywed y Gymraeg yn briodol, er enghraifft canu caneuon Cymraeg a thrafod y tywydd. Fodd bynnag, prin yw'r ymarferwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn ystod sesiynau dysgu neu'n integreiddio'r Gymraeg yn naturiol mewn arferion bob dydd.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael digonedd o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau llythrennedd cynnar. Maent yn darllen gyda phlant yn rheolaidd ac yn annog ysgrifennu cynnar at ddiben, er enghraifft ysgrifennu eu henwau eu hunain. Mae ymarferwyr yn ymgorffori mathemateg mewn gweithgareddau bob dydd yn ystyriol. Maent yn helpu plant i gyfrif gwrthrychau yn yr awyr agored ac yn defnyddio iaith fathemategol i gymharu maint a phwysau, er enghraifft wrth dorri afalau. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad at adnoddau digidol, ac yn eu defnyddio'n bwrpasol i ymestyn eu dysgu. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio microsgopau a chamerâu i edrych ar wrthrychau'n fanwl a thynnu llun o'r hyn y maent yn ei weld.

Mae ymarferwyr yn cefnogi creadigrwydd a datblygiad corfforol plant yn dda. Maent yn darparu ystod eang o ddeunyddiau ac yn annog plant i arbrofi trwy weithgareddau, fel collage. Mae plant yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau, sy'n aml yn cael eu hysbrydoli gan themâu tymhorol neu ddathliadau diwylliannol.

Mae'r lleoliad yn cynorthwyo plant i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau yn sensitif. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau tra ystyriol fel storïau a cherddoriaeth i gyflwyno gwahanol ddiwylliannau o bob cwr o'r byd. Maent yn dathlu adegau arbennig o'r flwyddyn, fel Diwali, y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd mewn ffyrdd sy'n briodol i oedran, yn aml gan ddefnyddio cerddoriaeth, bwyd a gweithgareddau creadigol i ddod â'r profiadau hyn yn fyw. Mae ganddynt gysylltiadau agos â'r eglwys leol, ac yn mynd â phlant yno i ddathlu digwyddiadau fel y cynhaeaf a'r Nadolig. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant.

Ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn, mae ymarferwyr yn arsylwi plant yn agos ac yn cofnodi eu datblygiad yn briodol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi cynnydd plant, y maent yn ei rhannu â theuluoedd yn fuddiol. Maent yn aml yn trafod cynnydd plant yn fwy anffurfiol â rhieni trwy sgyrsiau dyddiol.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddiogel a saff. Maent yn asesu'r amgylchedd dysgu am risgiau bob dydd, gan gynnwys yr ardal awyr agored, ac yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau ar gyfer ymwelwyr. Mae'r adeilad yn lân ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid yn ofalus, er enghraifft diheintio byrddau cyn

byrbrydau. Maent yn darparu dillad amddiffynnol, pan fydd angen. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid clytiau yn addas, ac mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas plant yn cael eu cynnal.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar a difyr. Mae'n darparu ystod dda o gyfleoedd i blant chwarae, dysgu a symud o fewn ardaloedd dan do ac awyr agored. Mae arweinwyr yn darparu ystod o offer ac adnoddau diddorol, wedi'u trefnu'n barthau, yn yr ystafell cynllun agored a'r ardal awyr agored. Mae llawer o ardaloedd yn cynnwys deunyddiau wedi'u hailgylchu, gwrthrychau bywyd go iawn, a deunyddiau penagored, fel blociau, cerrig mân, ffabrig neu ffyn. Mae hyn yn galluogi plant i symud, cyfuno, a defnyddio'r adnoddau mewn gwahanol ffyrdd ac yn hyrwyddo'u chwilfrydedd naturiol. Mae bron pob un o'r adnoddau ar gael yn hawdd i blant.

Mae'r amgylchedd awyr agored yn darparu ystod addas o brofiadau datblygiadol. Mae plant yn gwneud dewisiadau annibynnol yn hyderus am ble maent yn chwarae a'r adnoddau yr hoffent eu defnyddio. Maent yn cael cyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, fel reidio treiciau neu bwmpio dŵr. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r parc lleol a'r maes gyferbyn â'r lleoliad yn rheolaidd, er enghraifft i edrych ar arwyddion o'r hydref. Mae hyn yn ymestyn profiadau plant yn yr awyr agored ymhellach.

Mae ymarferwyr yn arddangos ffotograffau, gwaith a chyflawniadau plant yn atyniadol. Mae hyn yn cefnogi ymdeimlad o berthyn ac yn hyrwyddo hunan-barch plant yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn defnyddio deunyddiau chwarae a dysgu i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant, gan gynnwys eu treftadaeth Gymreig. Maent yn ymweld ag ardaloedd lleol o ddiddordeb o fewn y gymuned, fel yr eglwys, ac yn cymryd rhan mewn teithiau cerdded o gwmpas y pentref. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o'u cymuned leol yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae gan arweinydd y lleoliad weledigaeth glir a phwrpasol sy'n rhoi lles plant yn ganolog i waith y lleoliad. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n effeithiol ag ymarferwyr a theuluoedd, gan greu ymdeimlad cryf o gymuned. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o sut i ddarparu addysg plentyndod cynnar effeithiol a difyr, ac mae'n gweithio'n ddiwyd i gynllunio a chyflwyno hyn yn effeithiol.

Mae datganiad diben y lleoliad yn glir ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'n darparu cynrychiolaeth gywir o ethos a blaenoriaethau gweithredol y lleoliad, gan helpu teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus am addysg gynnar eu plentyn.

Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad i hunanwerthuso ac yn casglu adborth gan rieni a phartneriaid allanol, fel mater o drefn. Mae hyn yn eu helpu i feithrin dealltwriaeth eang o gryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn

canolbwyntio’n ddigon da ar agweddau allweddol ar waith y lleoliad a blaenoriaethu meysydd i’w gwella’n fwy cywir, er enghraifft pa mor dda mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn diwallu anghenion unigol.

Mae arweinwyr yn nodi ychydig o feysydd i’w gwella yn ystyriol, er enghraifft yr angen i ymgorffori sgrinio lleferydd ac iaith. Fodd bynnag, mewn gwaith gwella, mae diffyg ffocws ar flaenoriaethau sy’n gallu ysgogi’r newidiadau mwyaf perthnasol ac angenrheidiol. Yn rhy aml, mae blaenoriaethau’n canolbwyntio ar gwblhau tasgau neu roi hyfforddiant diweddar ar waith. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen symud tuag at arferion mwy cadarn sy’n blaenoriaethu gwelliant pwrpasol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu diffinio’n glir. Mae eu trafodaethau anffurfiol rheolaidd yn meithrin cyfathrebu agored ac yn helpu ymarferwyr i ddeall eu cyfraniad at lwyddiant y lleoliad. Mae systemau goruchwylio ac arfarnu wedi hen ennill eu plwyf. Mae arweinwyr yn defnyddio’r prosesau hyn yn ystyriol i helpu nodi cryfderau ymarferwyr unigol, a’u meysydd ar gyfer twf. Maent yn sicrhau bod hyfforddiant yn cyd-fynd ag anghenion a nodwyd yn ofalus ac yn fuddiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn elwa ar ddysgu proffesiynol perthnasol, gan gynnwys cyrsiau fel addysg plentyndod cynnar, diogelu a ‘Dough Disco’. Maent yn annog ymarferwyr i fyfyrio ar eu harfer a rhannu mewnwelediadau gyda chydweithwyr, sy’n cyfrannu at ddiwylliant o welliant parhaus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob ymarferwr yn cwblhau gwiriadau perthnasol cyn cyflogaeth ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd mewn meysydd fel amddiffyn plant ac iechyd a diogelwch. Maent yn adolygu polisïau yn briodol ac yn diweddaru arferion yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau gwerthfawr o fewn y gymuned, er enghraifft gyda busnesau lleol, a’r ysgol ac eglwys gyfagos. Mae plant yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol ac yn elwa ar weithgareddau fel gwasanaethau dathlu yn yr eglwys ochr yn ochr â disgyblion o ysgol y pentref. Mae’r perthnasoedd hyn yn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth bwrpasol o’u hardal leol ac yn helpu cefnogi cyfnodau pontio esmwyth. Mae arweinwyr yn gweithio’n agos ac yn gadarnhaol gyda staff ymgynghorol, gan alluogi’r lleoliad i elwa ar gyngor buddiol, pan fydd angen.

Mae arweinwyr yn rhoi diweddariadau rheolaidd i rieni trwy blatfform digidol, cyfarfodydd tymhorol a thrafodaethau anffurfiol. Maent yn agor y lleoliad i rieni ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn, er enghraifft wrth ddathlu’r cynhaeaf a’r Pasg. Mae’r digwyddiadau hyn yn cryfhau’r cysylltiad rhwng y cartref a’r lleoliad yn dda. Mae arweinwyr yn mynd ati i ofyn am fewnbwn rhieni i helpu ffurfio’r ddarpariaeth ac yn gwneud defnydd da o arolygon i nodi eu hoffterau a’u diddordebau. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad, eu bod yn hapus ac yn gwneud cynnydd da.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2025